Mr Cadeirydd ac annwyl gyfeillion,

'Rwy'n dra diolchgar i'r awdurdodau am y gwahoddiad caredig i draddodi 'r Ddarlith Flynyddol eleni. Rhoddwyd rhyddid i mi i ddewis unrhyw destun a'm dewis yw:

RHAI ATGOFION GWLEIDYDDOL

O ganlyniad, yn nhreigl y misoedd teimlais bigiad o embaras gan gredu i mi efallai roddi'r argraff y byddai'n bosib i mi sôn am yrfa wleidyddol lwyddiannus. Nid un felly ydoedd. Ni hoffwn chwaith bontifficeiddio'n ffroenuchel na cheisio dod i ddedfryd awdurdodol ar unrhyw fater. Yr hyn sydd yma yw dyn rhai blynyddoedd tu hwnt i oed yr addewid yn bodio'n gyflym trwy fwndel o luniau sydd ar len y cof - rhai'n ddibwys ac eraill efallai o ryw arwyddocâd cyhoeddus.

Wn i ddim pa bryd y clywais i am wleidyddiaeth gyntaf ond mae'n rhaid fy mod i'n bur ifanc. Alla' i ddim dweud fod fy rhieni yn flaenllaw nag yn orweithgar yng nghyswllt gwleidyddiaeth; ond yr oedd trafod a dadlau ar bynciau gwleidyddol yn broses gyson yn fy nghartref i pan oeddwn i'n blentyn bychan. Yr oedd y ddau ohonynt yn perthyn i asgell radicalaidd gwleidyddiaeth. Fe aeth fy Mam i goleg Aberystwyth ym 1917 yn eneth ddwy ar bymtheg oed. Yn y dyddiau hynny fe uniaethai ei hunan â'r suffragettes ac 'roedd hanes Emily Davidson a daflodd ei hunan i farwolaeth dan garnau march y brenin yn y Derby yn un o'r straeon a gawn i ar ei glin yn gynnar iawn. Heddychwr oedd fy Nhad a gerddodd allan o Sêt Fawr Eglwys y Tabernacl, Aberystwyth adeg y Rhyfel Byd Cyntaf pan draddodai ei gefnder, y Parchedig R J Rees, bregeth yn cefnogi'r rhyfel. Cafodd fy Nhad ei ailethol yn flaenor flynyddoedd lawer ar ôl hynny yn yr un eglwys. 'Ro'n i'n rhyw bedair oed pan losgwyd yr Ysgol Fomio gan Saunders Lewis, D J Williams a Lewis Valentine; ac mi gofiaf yn dda glywed eu henwau ar yr aelwyd yn cael eu llefaru gydag edmygedd a serch. Fe gofiaf unwaith am fy Nhad yn darllen allan i Mam wrth y bwrdd brecwast, llythyr yr oedd wedi ei gael gan rywun o'r wasg. (Fe ddylwn i ddweud mai un o wŷr y wasg oedd fy nhad). Fe soniai'r llythyr am ddigwyddiad a gymerodd le yn Wormwood Scrubs yng nghyswllt Saunders Lewis. Yr oedd yna mae'n debyg un swyddog mwy sarrug a didostur na'r gweddill a ddirmygai'r Cymry yn gyson. Fe safai hwnnw ar risiau a cherddai'r carcharorion i fyny gan fynd mor bell oddi wrtho ag y gallent ond aeth Saunders Lewis yn syth ato a gorfodi iddo symud

o'r ffordd a dweud wrth ei gyfeillion "rwy'n credu fod y barlat wedi colli ei blu!".

Yn fuan ar ôl cychwyn yr Ail Ryfel Byd fe anfonwyd cyfaill agos i 'Nhad, y Parchedig T E Nicholas neu Niclas y Glais fel ei hadnabuwyd, i garchar o dan y Defence Regulations. 'Roedd Niclas yn gomiwnydd digymrodedd. Ei drosedd oedd mae'n debyg bod yn berchen ar fap a oedd yn dangos cyrch y Rwsiaid ar y Ffindir. Bryd hynny, wrth gwrs, yr oedd Rwsia yn un o gynghreiriaid yr Almaen. O bryd i'w gilydd buasai fy Nhad yn derbyn rhyw faint o hanes Niclas yng ngharchar Abertawe. Cyn ei ryddhau o gaethiwed echrydus o anghyfiawn fe ysgrifennodd nifer enfawr o sonedau a cherddi eraill ar bapur tŷ bach a welsant olau dydd yn ei gyhoeddiadau *Llygad y Drws* a *Chanu'r Carchar*.

Tipyn cyn diwedd yr Ail Ryfel Byd daeth fy nghefnder, yr Athro Iwan Morgan, yn ymgeisydd Llafur yng Ngheredigion a safodd yno ym 1945 a 1950 a hynny yn erbyn Mr Roderick Bowen. Fe gafodd Iwan dros ddeg mil o bleidleisiau ar y ddau achlysur. Byddai fy Nhad yn annerch amryw gyfarfodydd o'i blaid. Fe welai ef fel olynydd naturiol i radicaliaeth Llewelyn Williams a anfarwolodd ei hun yn y frwydr aruthrol honno yn isetholiad Ceredigion ym 1921.

Pan yn fachgen ysgol yr oedd gwleidyddiaeth yn faes a ddenai fy niddordeb yn enfawr. Darllenwn yn bur eang am bynciau'r dydd yn y pedwardegau diweddar. Cofiaf ddarllen pob un o nofelau Howard Spring. Yr oedd hefyd stoc go helaeth o lyfrau gartref o'r Left Book Club gan gynnwys llyfrau Elwyn Jones, *The Battle for Peace* a *The Enemy Within*. Fe borais hefyd yn bur helaeth yn hanes yr Iwerddon.

Yng nghyswllt Cymru, *Y Faner* oedd y datganiad terfynol ar bynciau'r dydd. Bu fy Nhad yn is-olygydd i'r papur yn y tridegau. Darllenwn ysgrifau Saunders Lewis o dan y teitl *Cwrs y Byd* ac yn fuan fe droais at ei ysgrifau *Canlyn Arthur*. Nid anghofiaf fyth ei ysgrif ar Thomas Masaryk, Tad Tsiecoslofacia. Yn fachgen ysgol, sylweddolodd hwnnw yn sydyn mai Tsiec ydoedd ac nid Awstrian. O'r adeg yma, a minnau'n rhyw un-ar-bymtheg oed, yn nhermau Cymru fel gwlad a chenedl yr edrychwn ar wleidyddiaeth.

Ym 1950, yn hogyn dwy-ar-bymtheg oed, yr euthum i goleg Aberystwyth. Yno bûm yn Ysgrifennydd cangen y coleg o'r Blaid ac yn Llywydd ar ôl hynny. Fe gofiaf yn dda am ymweliad Gwynfor

â'r coleg a nifer ohonom yn cael swper ardderchog ar ôl hynny yn llety yr annwyl Carwyn James, a oedd yn Llywydd ar y pryd.

Yn gynnar ym 1955, a minnau yn fyfyriwr y gyfraith, bu farw Robert Richards, Aelod Seneddol addfwyn a diwylliedig Wrecsam. Cefais wahoddiad gan bwyllgor sirol Dinbych o'r Blaid i sefyll fel ymgeisydd yn yr isetholiad. Bûm "yn hir yn sad gysidro", fel y dwed yr hen gan. 'Roeddwn wedi dechrau ymchwil ar destun o gyfreithiau Hywel Dda ac ar yr un pryd yr oeddwn yng nghanol fy erthyglau fel cyfreithiwr ac arholiadau tyngedfennol yn agosáu. Derbyn gwnes i beth bynnag gan feddwl mai rhyw gyswllt mis â Wrecsam a fyddai. Ychydig a wyddwn i bryd hynny y buasai'r ardal hon yn chwarae rhan mor ganolog yn fy mywyd i am flynyddoedd lawer i ddod.

Y Rhos a Choedpoeth gyfagos oedd ardaloedd cryfaf Plaid Cymru, wrth gwrs, yn y dyddiau hynny. Ychydig o batrwm trefniant oedd i'r Blaid yn yr etholaeth. Er hynny, profiad unigryw a bythgofiadwy i laslanc dwy ar hugain oed oedd ymladd isetholiad fel hwn. 'Roedd yna gyfarfodydd cyhoeddus wrth yr ugeiniau ym mhob tref a phentref yn yr etholaeth a'r rheini yn aml iawn yn cael eu mynychu gan niferoedd teilwng. Ymhell, wrth gwrs, dros blyg blynyddoedd y dyfodol y gorweddai datblygiadau electronaidd canfasio ffôn a chysylltiadau'r rhyngrwyd. Trwy gydol yr ymgyrch fe gefais gefnogaeth ffyddlon a brwd y Parchedig Lewis Valentine a oedd yn weinidog Penuel, Y Rhos ar y pryd. Dadleuwn bob amser fod pob pleidlais a fwrid i Blaid Cymru yn yr etholiad yn un a fyddai'n tynnu rhyw ronyn mwy o sylw at ofynion Cymru fel gwlad a chenedl a bod yr hawl a'r ddyletswydd i ennill statws cyfansoddiadol yn gwbl gydnaws gyda rhai o ddelfrydau mwyaf hanfodol y Blaid Lafur. Dyfynnwn yn gyson eiriau anfarwol Keir Hardie:

"I sometimes wonder what it is that makes men able to oppose home rule for the land of their birth".

Nid oedd canlyniad yr isetholiad yn annisgwyl. Llafur a enillodd gyda mwyafrif anferth ac fe gafodd Plaid Cymru bleidlais ddigon parchus o 4,572. Dilynwyd yr isetholiad o fewn deufis gan etholiad cyffredinol. Gwahoddwyd fi i sefyll eto a'r tro hwn fe aeth y bleidlais i fyny i 5,139. Pan ddeuthum yn gyfreithiwr ychydig ar ôl hynny, i Wrecsam yr euthum i weithio a dod yn bartner yn un o hen

ffirmiau'r dref. Fe sefais i hefyd yn yr etholiad nesaf ym 1959 ac fe aeth y bleidlais i fyny i 6,452.

Fe ddeuthum pan oeddwn i yn fyfyriwr yn aelod o Bwyllgor Gwaith y Blaid. 'Roedd hwn yn brofiad cyfoethog ac addysgiadol dros ben. Fe deimlwn fel rhyw hogyn ysgol go breintiedig yn yr amgylchedd ysbrydoledig hwn. Mor aruthrol oedd y fraint o glywed pobl fel y Dr Tudur Jones, Gwenallt, Waldo, D J Williams Abergwaun, a'r Dr Gwenan Jones yn traethu o'u disgleirdeb ar faterion cyhoeddus y dydd. Heddiw, wrth gwrs, mae'n annhebyg y byddai neb yn edrych arnynt fel corff y byddech yn ei gyfrif yn beiriant gwleidyddol mwyaf soffistigedig o ran tactegaeth ond i mi fe gynrychiolent olud anhraethadwy'r Gymru Gymraeg.

Mae un achlysur arbennig wedi ei argraffu'n ddwfn ar fy nghof i. Ym 1955 ar achlysur dathlu cyfnod o ddeng mlynedd o arweinyddiaeth lew a disglair Gwynfor fel Llywydd, fe gyflwynwyd anrheg iddo ef yn y Pwyllgor Gwaith gan D J Williams Abergwaun. Fe allai weld D J Williams 'nawr yn sefyll ar ei draed ac yn gwenu, a'r ddau afal coch yn ei fochau a'i lygaid bron ar gau, fel 'roedd e'n gwneud rhyw bwynt neu'i gilydd ac 'rwy'n ei gofio fe'n dweud yn ei anerchiad "Fe fethodd Mr Saunders Lewis am ei fod e'n credu ei fod yn arwain cenedl gref. Mae'n bosib, Mr Llywydd, y bydd i chi lwyddo am eich bod chi'n gwybod eich bod chi'n arwain cenedl wan".

Wel, "ffein", meddech chi "ond pam y gadawsoch chi'r Blaid a oedd yn amlwg yn golygu llawer iawn i chwi?" Yn raddol iawn y des i i'r penderfyniad hwnnw cyn ymuno â'r Blaid Lafur ym 1965. Pan ymunais â Phlaid Cymru fe gredwn o lwyrfryd calon y gallai clymblaid o genedlaetholwyr o bob lliw gwleidyddol ryw ddydd ennill y fath gefnogaeth fwyafrifol yng Nghymru ag i orfodi llywodraeth y dydd - mewn termau ymarferol, wrth gwrs, llywodraeth Lafur - i ganiatáu Senedd i'r genedl. Erbyn y chwedegau canol yr oedd yn hollol amlwg nad oedd hyn yn mynd i ddigwydd o fewn ein dyddiau ni. Yr oeddwn wedi camfarnu yn gyfan gwbl nerth traddodiadol yr hen bleidiau gwleidyddol. Er bod Mudiad Senedd i Gymru o Fewn Pum Mlynedd yn y pumdegau cynnar wedi ennill peth cefnogaeth, cyfyngedig iawn oedd hwnnw. Yn ddiweddarach, wrth gwrs, yr oedd methiant ymgyrch i achub Cwm Tryweryn yn hunllef barhaol. Sut y gallasai cenedlaetholdeb gwleidyddol Cymru fod yn gredadwy a dinas ffroenuchel a hunanol Lerpwl yn cipio tir y byw a rheibio beddau'r meirw i ddwyn dŵr o

Gapel Celyn i bwrpasau datblygu diwydiant? At hyn, methiant yn gyffredinol oedd hanes ymgeiswyr Plaid Cymru a minnau yn eu plith yn etholiad cyffredinol 1964. Fe ddisgynnodd y bleidlais o 77,571 o bleidleisiau ym 1959 i 69,507 o bleidleisiau bum mlynedd yn ddiweddarach, er bod cynnydd sylweddol yn nifer yr ymgeiswyr.

Yn ychwaneg hefyd, yr oedd cwerylon mewnol y Blaid yn merwino ac yn llethu'r ysbryd. Bu Gwynfor o dan warchae gan ei wrthwynebwyr am flynyddoedd yn y cyfnod alaethus ac an-adeiladol hwn. Er bod gen i'r parch eithaf i amcanion Plaid Cymru i ennill statws cyfansoddiadol teilwng i'r genedl, fe ddes i deimlo fwy a mwy nad oedd strategaeth y Blaid yn cyfateb â realaeth y sefyllfa na'r tymheredd gwleidyddol ychwaith. Fe deimlwn o ran fy hunan pe bai'r ddegrif nesaf yn ailadrodd patrwm y ddegrif flaenorol nad oedd yna yn wir ddim cyfraniad o werth y medrwn i ei wneud i'r sefyllfa o fewn Plaid Cymru. Yr ail oedd yr honiad a oedd yn un o ganonau canolog Plaid Cymru fod Llafur yn wrth-Gymreig ac na fuasai Llafur fyth yn arwain Cymru yn sylweddol i statws cyfansoddiadol uwch. Pan felly y bu i Lywodraeth Lafur yn ail ddydd ei bodolaeth ar ôl etholiad Hydref 1964 sefydlu'r swydd o Ysgrifennydd i Gymru, fe deimlais ysfa gref i ymuno â'r Blaid Lafur. Wedi'r cyfan yr oedd creu'r ysgrifenyddiaeth yn gydnabyddiaeth gwbl bendant o fodolaeth Cymru fel gwlad a chenedl. Dyna'r newid cyfansoddiadol hanfodol cyntaf ers Deddf Uno 1536. 'Felly i mi yng nghyswllt Cymru yr oedd yr holl sefyllfa wedi ei gweddnewid. Cyn sefydlu'r ysgrifenyddiaeth 'doedd yna ddim ennill tir yn bosib yn y maes cyfansoddiadol, ar ôl sefydlu'r ysgrifenyddiaeth 'doedd na fawr ddim bron nad oedd o fewn cyrraedd Cymru. At hyn hefyd yr oedd y ffaith fod fy ngwleidyddiaeth gyffredinol i wedi bod yn Llafur o'r cychwyn cyntaf. 'Dwi'n amau dim na fyddwn i wedi ymuno â'r Blaid Lafur yn gynnar iawn yn fy mywyd pe tawn i wedi fy magu yn Lloegr. Felly o roi'r ddau beth yna at ei gilydd fe ddes i benderfyniad mai'r peth cywiraf i mi ei wneud byddai gadael Plaid Cymru ac ymuno â'r Blaid Lafur.

Wrth gwrs, nid peth rhwydd oedd gadael Plaid Cymru. Yn ychwaneg at y ffaith nad oedd gennyf unrhyw gweryl o gwbl â'i hamcanion creiddiol, yr oedd y Blaid y dyddiau hynny yn deulu bach cynnes a chryno lle'r adnabyddai bron bawb ei gilydd. 'Roeddwn wedi bod yn agos i Gwynfor ers blynyddoedd ac yn edmygydd digymrodedd ohono a nifer fawr o'm cyfeillion agosaf yn aelodau brwd ac ymroddedig o'r Blaid. Bûm yn trafod y sefyllfa

gyda Gwynfor a Lewis Valentine a Gareth Evans, ac er eu hapêl daer arnaf i aros, mynd a wnes i; a hynny yn Awst 1965 gan deimlo o lwyrfryd calon mai oddi mewn y Blaid Lafur y gallwn i wneud unrhyw gyfraniad a allasai fod o werth i Gymru yn y cyswllt gwleidyddol. Wnes i ddim unrhyw ymdrech i ddenu neb arall i'r llwybr gan mai mater i bob un benderfynu drosto'i hunan ydoedd ac nid oedd gwneud y niwed lleiaf i'r Blaid yn gymhelliad o gwbl.

Pan ymunais â'r Blaid Lafur 'doedd gen i unrhyw gynllun pendant ynglŷn â'r hyn a ddymunwn ddigwydd. Cefais groeso cynnes gan nifer o wleidyddion Llafur y dydd gan gynnwys Jim Griffiths, Cledwyn, Goronwy Roberts ac, wrth gwrs, fy hen gyfaill ysgol, John Morris. Cymhellent fi i fod yn ymgeisydd seneddol Llafur cyn gynted ag y gallwn. Fy agwedd i oedd y dylwn bwyllo am rai blynyddoedd. Yr oedd yn fwriad ar y pryd i geisio ysgrifennu ychydig am Senedd i Gymru a'r nod o Statws Dominiwn o fewn cwmpawd delfrydiaeth y Blaid Lafur dros y degrifoedd cyn hynny. Eto, fe wyddwn fod cyhoeddi dim yn dân ar fy nghroen! Yn ddisymwth cefais gennad oddi wrth John Morris yn dweud fod Plaid Lafur Sir Aberteifi yn chwilio am ymgeisydd a bod fy enw i wedi cael ei grybwyll gan nifer. 'Roedd hyn yn syndod i mi gan i mi gymeryd yn ganiataol y byddai D. J Davies, Panteryrod, a safodd dros Lafur ym 1964 a dod o fewn 2,200 o bleidleisiau i fuddugoliaeth, yn sefyll eto ond am ryw reswm ni fynnai. Boed hynny fel y bo, yr oedd yr amser a aeth heibio ers i mi adael Plaid Cymru yn echrydus o fyr. Ta beth, fe'm perswadiwyd gan nifer i adael i fy enw fynd ymlaen a dyna a wneuthum. Fe'm dewiswyd gyda mwyafrif digon sylweddol a dyna lle'r oeddwn i yn sydyn reit yn ymgeisydd seneddol plaid y llywodraeth yn Sir Aberteifi. Ceisiais dwyllo fy hun y gallasai'r llywodraeth Lafur ddal allan efallai am flwyddyn neu ddwy ar y mwyafrif bach a oedd iddi; ac y cawn amser i roddi ymgyrch at ei gilydd a dod i adnabod cefnogwyr Llafur Sir Aberteifi. Ond nid oedd hynny i fod ac fel y cofiwch fe ddaeth yr etholiad ar y dydd olaf o Fawrth 1966. Ond yr oedd un tro sydyn i'r stori wedi digwydd o fewn ychydig wythnosau i mi ddod yn ymgeisydd. Bu farw Llefarydd Tŷ'r Cyffredin, Syr Harry Hilton-Foster, yn sydyn iawn. Tri o fwyafrif dros y pleidiau eraill i gyd oedd gan Lafur, a chan mai dyletswydd llywodraeth y dydd ydi darparu Llefarydd, fe olygai hyn fel mater o rifyddeg noeth y gallasai mwyafrif y Llywodraeth ddisgyn i un. Yr unig ffordd allan ohoni wrth gwrs oedd cael rhywun o un o'r pleidiau eraill i ddod i mewn i'r equation. Y peth nesaf a glywais i oedd fod Mr Roderick Bowen, Aelod Seneddol Rhyddfrydol Sir Aberteifi, wedi ei wahodd

i fod yn Ail Ddirprwy Lefarydd. Pan glywais i am hyn mi ddywedais i wrth Alwen, “wel, fydd yna ddim etholiad yn Sir Aberteifi, gei di weld!”. Am resymau na fedraf i eto eu dirnad, fe dderbyniodd Roderick Bowen y swydd o Ddirprwy Ddirprwy Lefarydd yn hytrach na derbyn y gadair ac fel y gwyddoch fe fu etholiad ym 1966 yn y sir. Yr oedd yr etholiad hwnnw yn un o’r etholiadau olaf i gael eu hymladd o dan yr hen drefn fel petai. Trefn ydoedd lle’r oedd yr ymgyrch trwy gyfarfodydd yn para i gyfri’n sylweddol tuag at y canlyniad terfynol. Wrth gwrs, yn yr etholiadau hyn hyd yn oed dylanwad ffiniol oedd i gyfarfodydd ond yr oedd yn ddigon efallai i benderfynu’r ddedfryd mewn etholiad glos. Drwy fis Mawrth 1966 felly fe dyrrodd etholwyr Sir Aberteifi i’r neuaddau, yr ysgolion a’r festrïoedd i wrando ar y pedwar ymgeisydd. ‘Rwy’n cofio annerch rhyw bedwar ugain o gyfarfodydd. Bu Jim Griffiths a John Morris a nifer o Aelodau Seneddol eraill yn y sir yn fy nghynorthwyo ac fe gawsom gefnogaeth sylweddol ym mhob rhan o’r sir.

Yr oedd y llanw gyda Llafur ond tybed a fyddai’n bosib i ni ychwanegu rhywfaint at frig y don i ennill. Hyd y diwedd, yn fy ffrâm feddwl besimistaidd i credwn mai boddi yn ymyl y lan fyddai’n tynged, ond pan aed ati i gyfri’r pleidleisiau, yr oedden ni wedi ennill gyda 511 o fwyafrif.

Yr oedd yna un eironi trist yn aros yn y stori canys yr union ddydd y cefais fy ethol fe fu farw fy nghefnder Iwan Morgan a oedd wedi cario baner Llafur ym 1945 a 1950.

Gwnes fy araith forwynol yn y Tŷ ar y 6ed o Fai 1966 ar ail ddarlleniad y Mesur Amaeth. Gwyddwn fod disgwyl osgoi unrhyw faterion dadleuol a sôn yn hytrach am yr etholaeth a’m rhagflaenydd.

Yr oeddwn wedi darllen am areithiau morwynol dros y canrifoedd. Cofiwn am bryder Edward Gibbon, yr hanesydd clasurol, a oedd y cyfryw ag iddo ohirio ei gyfraniad cyntaf am saith mlynedd. Cofiwn hefyd fel y bu i Disraeli ymosod ar bron bawb o fri yn ei araith ef, a’r nodyn a gafodd gan gyfaill:

“That was no maiden but a brazen hussy – a painted woman of a speech”.

Fe gofiwn hefyd am yr aelod anffodus hwnnw a gododd i annerch dim ond i weld wig y Llefarydd yn tyfu ac ymestyn fel ag i lanw'r holl Dŷ. Disgynnodd mewn llewyg.

Yn fy achos i, 'roeddwn yn cydletya gyda'm cyfaill Wil Edwards, Aelod Llafur Meirionnydd. Ysgrifenasom ein hareithiau yn gydwybodol y noson cynt. Adroddasom hwynt i'n gilydd i roi prawf arnynt. Galwyd Wil gan y Llefarydd o'm blaen i. Cychwynnodd yn ddigon hyderus ond aeth i ryw drafferth fach yn y canol. Y peth nesaf a glywn oedd Wil yn adrodd darn o'm haraith i gan gynnwys dyfyniad o eiriau Dr Johnson y dymunwn ei ddefnyddio i gymharu sefyllfa'r Gymru wledig dros y canrifoedd gyda'r Alban yn y ddeunawfed ganrif:

"The best prospect for the young Scotsman is the high road into England".

Yr oedd Wil druan wedi colli ei ffordd yn ei nodiadau ac wedi crwydro i'm libart i! Ni effeithiodd hyn ddim ar ein cyfeillgarwch. Yr oedd yn ŵr galluog, eofn ei natur a gweledigaeth glir ynglŷn ag amryw bethau, yn arbennig dyfodol Prydain yn Ewrop. Bu farw flwyddyn yn ôl yn 67 oed.

O fewn llai na phedwar mis i mi ddod yn Aelod Seneddol fe enillodd Gwynfor fuddugoliaeth ddramatig yn isetholiad Caerfyrddin, lle y gwyrdrowyd mwyafrif Llafur y Fonesig Megan Lloyd George o ddeg mil i fuddugoliaeth o dros ddwy fil i Blaid Cymru. Dyna'r Blaid felly ar ôl 41 o flynyddoedd yn dod yn blaid seneddol. Er bod gobeithion wedi cronni cyn hyn ynglŷn â'r posibilrwydd hwn, ni wireddwyd y dyhead hwn naill ai yn isetholiad y brifysgol yn 1943 na chwaith yn etholiad cyffredinol Meirion ym 1955.

Nid dyma'r lle i geisio mesur a phwyso yn fanwl arwyddocâd Caerfyrddin dros y deugain mlynedd canlynol. Yn amlwg fe redodd y sioc seismig hon nid yn unig trwy fywyd gwleidyddol Cymru ond hefyd trwy amgylchedd gwleidyddol Prydain yn gyffredinol. O edrych yn ôl ar y digwyddiad, yr oedd bron yn wyrthiol sut y bu i bethau gyd-ddigwydd yn y ffordd y gwnaethant. Nid sôn am Ragordeiniad Methodistaidd yr wyf ond am ddau ddigwyddiad blaenorol a wnaeth y peth yn bosib. Pe bai'r naill neu'r llall wedi cymeryd lle yn wahanol ni fuasai is-etholiad yn Sir Gâr ym 1966. Y cyntaf oedd i Megan Lloyd George gael ei

chymeryd yn ddifrifol wael a hynny beth amser cyn yr etholiad cyffredinol. Yr oedd mewn ffaith ar ei gwely angau adeg yr etholiad ond gyda'r gwroldeb di-ildio oedd yn nodweddiadol ohoni, mynnodd barhau yn ymgeisydd. Ni wyddai swyddogion lleol y Blaid Lafur ddim am hyn, na chwaith Gwilym Prys Davies a ymladdodd yr etholiad drosti fel cynrychiolydd personol. Pe bai Megan heb sefyll buasai Gwilym Prys wedi dod yn ymgeisydd ac wedi ennill gyda rhan helaeth o'r mwyafrif a gafodd Megan. Cymerodd y digwyddiad arall le rhyw ddeng mlynedd yng nghynt gyda marw Aelod Seneddol Caerfyrddin ar y pryd, Syr Rhys Hopkin Morris. Yr oedd y stori hon hefyd yn troi o amgylch Megan Lloyd George. Pan aed ati i ddewis ymgeisydd Llafur enillodd Megan gydag un bleidlais o fwyafrif allan o 91 oedd yn pleidleisio. Pe bai'r un bleidlais honno wedi ei bwrw dros yr ymgeisydd arall yna hwnnw ac nid Megan a fuasai yn Aelod Seneddol. Yr ymgeisydd ifanc hwnnw oedd John Morris. Mae pob lle i gredu yn amgylchedd ôl-Suez ac yntau yn Is-Ysgrifennydd poblogaidd Undeb Ffermwyr Cymru, y buasai John wedi ennill (er efallai gyda mwyafrif ychydig yn llai na mwyafrif Megan) ac wedi para yn Aelod Seneddol am flynyddoedd lawer. Felly, fe fu ffawd dwywaith o fewn trwch aden gwybedyn i atal buddugoliaeth Gwynfor yng Nghaerfyrddin. Nid yw hyn, wrth gwrs, yn tynnu gronyn oddi wrth orchest ei fuddugoliaeth hanesyddol ond mae'n dangos fel y mae digwyddiadau yn medru newid cwrs hanes yn aml iawn.

Hoffwn sôn yn fyr am y ddrama a gymerodd le yn Nhŷ'r Cyffredin ar yr 21ain o Orffennaf 1966 pan gymerodd Gwynfor ei le yn y siambr. Gofynnodd ar unwaith am gael cymeryd y llw yn Gymraeg ond gwrthwynebwyd hwn gan y Llefarydd, Dr Horace King. Bu trafodaeth ar bwyntiau o drefn a nifer helaeth o aelodau yn cymeryd rhan a dadlau nad oedd rheidrwydd i gyfyngu cymeryd llw i'r iaith Saesneg. Mi wneuthum i bwynt amlwg bod Gwynfor <u>wedi</u> cymeryd y llw yn Saesneg felly yr oedd e'n AS cyflawn ac mai'r unig beth yr oedd e'n gofyn amdano felly oedd am sifalri'r Tŷ i ganiatáu cyfieithiad o'r llw i'r iaith a oedd yn iaith gyntaf iddo fel ag i eraill ohonom; ond ofer fu'r ymdrechion. 'Roedd Horace King mor ystyfnig â mul.

Gobaith pob Aelod Seneddol yw tywys rhyw ddeddf neu'i gilydd drwy'r Senedd fel mesur preifat, h.y. mesur aelod unigol yn hytrach na mesur y llywodraeth. Ceisiais wneud hynny ond dim ond gyda llwyddiant rhannol. Cynigais fesur i greu Bwrdd Dŵr i Gymru ar y 6ed o Ragfyr 1966. Aeth trwy ei gyflwyniad cyntaf y dydd hwnnw

yn ddiwrthwynebiad ond, fel y disgwyliais, ni chafodd amser gan y llywodraeth i symud ymhellach. Yr oedd yn fesur a fyddai wedi diogelu hawl Cymru fel gwlad a chenedl dros ei hadnoddau dŵr ac yn sicrhau tâl teg am ddŵr y buasai Cymru'n ei gweld yn dda i'w gwerthu, gyda nawdd arbennig yn cael ei sianelu i'r ardaloedd hynny lle cronnid y dŵr. Nid oedd yr ymdrech yn hollol wastraff, serch hynny, gan i mi gael y cyfle i atgoffa'r Tŷ o raib Tryweryn, o'r elw enfawr a wnâi dinasoedd yn Lloegr o ddŵr o Gymru na thalent amdano, ac am yr eironi o Gymru yn allforio dŵr ar raddfa afrad tra'r oedd rhannau helaeth o'n gwlad yn dioddef yn ddifrifol ar adegau o brinder dŵr. Fe'm cefnogwyd gan ddeg aelod Llafur o Gymru a dau arall a oeddynt a chysylltiad â Chymru.

Mater arall y bu i mi fethu, ar y cyfle cyntaf o leiaf, i'w ddwyn i lyfr statud, oedd mesur i ddiogelu sefyllfa teulu amaethyddol pan fyddai'r tenant gwreiddiol yn marw. Yr oedd hwn yn fater y gwyddwn yn dda amdano o'm profiad fel cyfreithiwr dros y blynyddoedd. Er bod Deddf Daliadau Amaethyddol 1948 wedi sicrhau mesur helaeth o ddiogelwch i denant amaethyddol, nid oedd hynny yn bodoli pan fyddai'r tenant gwreiddiol farw, a buasai'n rhaid i'r teulu adael y fferm a hynny weithiau ar ôl bod ynddi am genedlaethau. Effaith y mesur a gynigiwyd oedd rhoddi'r hawl i'r Tribiwnlys Amaethyddol i roi tenantiaeth newydd i fab, neu ferch, new weddw, neu ŵyr, neu wyres a oedd wedi cymeryd rhan resymol o weithio ar y fferm gyda'r tenant a fu farw. Gwrthodwyd y mesur, ond mae ambell i bysgodyn yn dod yn ôl at ei bluen yn ddisymwth a dyma a ddigwyddodd yn yr achos hwn. Flynyddoedd ar ôl hynny, a minnau erbyn hyn wedi gadael y Tŷ, fe ymgorfforwyd y mater hwn fel rhan o fesur seneddol gan lywodraeth Lafur ym 1976. 'Roedd John Morris erbyn hynny yn aelod o'r Cabinet, ac fe dalodd deyrnged hael i mi yn y Tŷ a diolch am gael "benthyg" y cymal o'r mesur gwreiddiol.

Cofiaf am lawer achlysur pan lifai emosiwn yn gryf yn Nhŷ'r Cyffredin. Darlun na ddilëir byth oddi ar len y cof oedd y Dydd Llun ar ôl trasiedi Aberfan. 'Roedd y Tŷ o dan ei sang. Medrech glywed pluen yn cwympo pan gododd Cledwyn Hughes, Ysgrifennydd Cymru, i ddweud sut y bu i 112 o blant bychain a 26 o oedolion golli eu bywydau yn y gyflafan erchyll a ddigwyddodd ddyddiau ynghynt. Yr unig sŵn a glywech wedyn oedd pobl ym mhob rhan o'r Tŷ yn wylo - rhai ohonynt yn bobl a feddyliwn cyn hynny a oedd â chalonnau fel callestr. Dyn teimladwy bob amser oedd Quintin Hogg, a gododd i siarad, ond ni fedrai yngan yr un

gair ond sefyll yn ysgwyd ei ben a'r dagrau yn llifo i lawr ei ruddiau. Brasgamodd allan o'r siambr.

Digwyddiad arall hefyd a chysylltiad ag ardal Merthyr oedd y dydd hwnnw pan gododd Roy Jenkins fel Ysgrifennydd Cartref i wneud datganiad ynglŷn ag achos Timothy Evans a ddienyddiwyd rhai blynyddoedd cyn hynny ar ôl ei gael yn euog o lofruddio ei wraig a'i blentyn. Aeth Timothy Evans i'r grocbren ar dystiolaeth dyn o'r enw Christie a wnaeth argraff ddofn ar y rheithgor fel cyn-gwnstabl-cynorthwyol o gymeriad dilychwyn. Yr hyn na wyddai'r rheithgor, wrth gwrs, oedd bod Christie eisoes wedi llofruddio nifer o fenywod ac wedi claddu eu cyrff o dan loriau ei dŷ, 10 Rillington Place.

Byrdwn datganiad Roy Jenkins oedd bod iddo'r dydd hwnnw annog y Frenhines i roddi Pardwn Rhydd i'r un a ddioddefodd y fath gamwri. Cofiaf y foment ysgytwol honno feddwl fod yna Gymro bach, anllythrennog, o Gwm Merthyr, o gyneddfau meddyliol cyfyngedig iawn, rywle yng Ngogoniant â theimladau digon rhyfedd ynglŷn â'r byd a'r bywyd hwn. Cyfeiriodd y bardd Gwilym R. Jones at y sefyllfa hon yn ei eiriau deifiol. Sonia am gyfiawnder

"Disgynnodd echdoe oddi ar ei farch
I stwffio'n pardwn dan gaead ei arch".

Digwyddiad ysgytwol arall oedd yr un a ddigwyddodd y Llun ar ôl y Sul Gwaedlyd ym 1972. Fel y cofiwch, fe saethodd milwyr y Parachute Regiment bedwar ar ddeg o bobl yn farw yn Derry a chlwyfo amryw eraill. Er i lawer blwyddyn fynd heibio, ond yn araf y daeth ffeithiau gwaelodol yr achlysur erchyll hwnnw i'r golwg. Nid oedd arf gan yr un a syrthiodd, ni tharwyd na pherson na cherbyd nac adeilad â'r un fwled oddi wrth y Gwyddelod, ac y mae erbyn hyn yn amlwg iddynt gael eu lladd mewn gwaed oer. Fel y dwedais yr oedd teimladau yn rhemp yn y Tŷ y dydd hwnnw. Cododd Reginald Maudling, fel yr Ysgrifennydd Cartref, i wneud ei ddatganiad. Aeth ati i geisio darlunio sefyllfa lle'r oedd y milwyr wedi tanio mewn sefyllfa o hunanamddiffyniad, a'i bod rywfaint yn anffodus fod cynifer o fywydau wedi eu colli. Pan yr oedd yn yngan y geiriau hyn dyma Bernadette Devlin, a oedd wedi ei hethol i'r Tŷ rai misoedd ynghynt yn lasferch un-ar-hugain oed yn sgrechian fel ysbryd ar ddisberod ac yn hyrddio ei hunan yn groes i lawr y Tŷ gan weiddi "you murdering hypocrite bastard, Maudling"

gydag ansoddeiriau eraill nad oes angen eu dyfynnu. Cafodd afael arno gerfydd ei wallt, crafodd ei wyneb â'i hewinedd a chofiaf weld ei sbectol drom yn hedfan llathenni i ffwrdd. Rhuthrodd dau neu dri o chwipiaid y Llywodraeth i'w amddiffyn ond ymladdai Bernadette Devlin fel teigres wyllt. Yn y diwedd fe lwyddwyd i'w chario a'i phen i lawr a'i thraed i fyny o'r siambr. Ni welodd *Mam Barchus y Seneddau* y fath olygfeydd na chynt na chwedyn.

Bûm yn aelod ar y meinciau cefn am union ddwy flynedd cyn i Harold Wilson benderfynu newid ei Lywodraeth. Dydd Gwener oedd hi ac yr oedd Alwen a minnau wedi bod mewn cyfarfod gwobrwyo yn Ysgol Uwchradd Aberteifi. Wrth ddychwelyd, clywsom ar radio'r car fod y dasg o ad-drefnu tîm y Llywodraeth yn cymeryd lle. Buom yn siarad ynglŷn â'r sibrydion a oedd yn rhedeg o bwy oedd yn debyg o ddod i mewn a phwy oedd yn debyg o adael. Ni chroesodd fy meddwl y buaswn i yn rhan o'r broses ar unrhyw lefel. Arhosem yn y Dolau gyda Deulwyn, fy mrawd, a Gwerfyl, fy chwaer-yng-nghyfraith. Tua 7 o'r gloch aeth y ffôn ac fe aeth Gwerfyl i'w ateb. Daeth yn ôl ymhen ychydig gan edrych braidd yn syn a dweud bod Rhif 10 eisiau gair â mi. Aeth fy meddwl yn syth i ddrwgdybio Jeremy Thorpe, a oedd yn ddynwaredwr o radd broffesiynol (doi o bryd i'w gilydd i fyny y tu cefn i chi yng nghoridorau'r Tŷ a dynwared eich llais chi'ch hunan yn berffaith). Dywedai'r llais ar y ffôn wrthyf mai'r Prif Weinidog oedd a'i fod am i mi ddod yn Is-Ysgrifennydd Cartref. Gofynnais a gawn tan y bore i feddwl amdano. Fe fyddai hyn wedi rhoi amser i mi i wneud yn sicr o ddilysrwydd yr alwad. Yn fwy na hyn, wrth gwrs, rhoddai gyfle i mi feddwl am y dadleuon o blaid ac yn erbyn derbyn y swydd. Yn anffodus, nid oedd y fath drwydded i fod gan fod Harold Wilson am fynd o fewn yr awr i Windsor i ddangos rhestr y gweinidogion newydd i'r Frenhines. Ar ôl gwewyr byr, fe gytunais i dderbyn ei gynnig. Ar ôl torri'r newydd i Alwen, Deulwyn a Gwerfyl, es i weld fy Nhad a oedd yn ddwfn yn ei lyfr mewn ystafell arall a dwedais wrtho am y cynnig. "Diddorol iawn", meddai yntau a chan ddweud fod Syr Ellis Jones Ellis-Griffith wedi dal yr union swydd adeg y Rhyfel Byd Cyntaf. Fe aeth yntau i sôn am yrfa dymhestlog y gŵr disglair hwnnw; ac ar ddychwelyd i'w lyfr, fe ddywedodd ymhen ychydig funudau "Wnest ti ddim derbyn, do fe?". I 'Nhad yr oedd cael cynnig yn beth digon calonnog ond 'roedd derbyn yn beth mwy difrifol o lawer.

Yr oedd y Swyddfa Gartref yn ymerodraeth eang o gyfrifoldebau diri. Ymestynnai o arolygu gweithgaredd yr heddlu o ddydd i

ddydd, i gyfrifoldeb am blant hyd at garcharau a diwygio'r gyfraith droseddol ac o'r fan hynny i gwestiwn ymfudwyr ac i ddiogelu adar gwylltion a.y.b. Dros y canrifoedd daeth ugeiniau ac ugeiniau o ddyletswyddau nad oedd unrhyw adran arall o'r Llywodraeth mewn sefyllfa i'w meddiannu. Yr oedd y gwaith yn drwm ond yn hynod amrywiol a diddorol. Y gyfraith droseddol, yr heddlu a chyfraith plant a oedd yn gyfrifol am y rhan helaethaf o 'ngwaith i o ddydd i ddydd. Cefais y profiad o fynd â Mesur Lladrad 1968 drwy Dŷ'r Cyffredin. Pwrpas y ddeddfwriaeth hon oedd
ail-lunio mewn modd mwy modern y gyfraith ynglŷn â lladrad a oedd wedi sefyll yn ei hunfan ers 1916. Er bod deugain mlynedd wedi mynd heibio ers hynny mae'r ddeddf yn para i weithio'n bur dda o hyd. Un marc bychan gwreiddiol a lwyddais i'w adael ar y ddeddf, a oedd yng nghyswllt Adran 4 o'r ddeddf a oedd yn ymwneud â photshan (poaching). 'Roedd un garfan o gyfreithwyr yn y swyddfa gartref a oedd yn dymuno i hyn fod yn radd o ladrad ond fe lwyddais i rwystro hyn. Mi roeddwn i pan yn gyfreithiwr wedi amddiffyn gormod o botsiars yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru i gymeryd unrhyw agwedd arall.

Mesur arall y bûm yn ymwneud ag ef oedd Mesur Plant a Phobl Ifainc a aeth drwy'r Senedd ym 1969. Effaith y mesur oedd llareiddio tipyn ar y gyfundrefn ynglŷn â phlant mewn gofal neu o dan ddisgyblaeth a gwneud y gyfraith yn fwy blaengar a mwy effeithiol. Un ffaith syfrdanol a ddaeth i'm sylw wrth dywys y mesur hwn drwy'r Tŷ oedd y ffaith fod tua hanner y plant a'r bobl ifainc a oeddynt yn yr ysgolion hynny a elwid "approved schools" a fodolai cyn 1969, heb gyflawni unrhyw drosedd o gwbl. 'Doedd na ddim bai arnyn nhw am ddim byd ond y ffaith bod naill ai eu rhieni wedi marw neu wedi eu gadael yn amddifad fel arall a neb i ofalu amdanynt. Cawsant eu cynnwys o dan yr un gyfundrefn a oedd yn delio â'r criw bach hwnnw o blant milain a pheryglus a oedd yn droseddwyr.

Un o'r digwyddiadau y bûm i'n delio â hwynt yn y Swyddfa Gartref oedd y Torrey Canyon, tancer olew anferth a ddrylliwyd ar greigiau danheddog Ynysoedd y Scilly ym Mawrth 1967 gyda rhyw 118 o filoedd o dunelli o olew amrwd ar ei bwrdd.

Rhoddwyd i mi'r dasg o ysgrifennu Papur Gwyn ar ran y Llywodraeth i gefnogi'r cais yn y Llys Rhyngwladol am filiynau lawer o bunnoedd o iawndal. Beth amser ar ôl hynny daeth chwaer long y Torrey Canyon, y "Lake Palourde" i mewn i

Singapore, rhoddwyd gwrit ar ei mast ac fe dalwyd yr holl arian a ddedfrydwyd gan y Llys.

Yr ail achlysur oedd y ddadl ym 1968 ar yr holl fater pan symudodd yr Wrthblaid gynnig o ddiffyg hyder yn y Llywodraeth am y ffordd y bu iddi ymateb i'r argyfwng. James Callaghan oedd i gloi'r ddadl ond methodd hedfan yn ôl - oherwydd niwl - o ymweliad â charcharau yng ngogledd Lloegr, a bu raid i mi weindio'r ddadl i fyny ar rybudd o ryw ddeng munud. Yr oedd yn brofiad hunllefus ond rywsut neu'i gilydd deuthum drwyddi'n groeniach; a'r dydd canlynol yr oedd yna ddarn hynod garedig yn *Y Guardian* yn canmol fy araith am ddangos rhywfaint o realaeth a gwreiddioldeb yng nghyswllt y pwnc.

Rhan amlaf y mae pob Gweinidog yn croesawu pob mymryn o gyhoeddusrwydd a gaiff ynglŷn ag unrhyw weithred swyddogol ar ei ran, cyhyd â bod y cyhoeddusrwydd hwnnw ychydig yn llai na bod yn gwbl gondemniol. 'Doeddwn i ddim gwahanol i unrhyw weinidog arall yn y Llywodraeth, ond yr oedd dau beth y bu rhaid i mi ymgymeryd â hwynt yn destun pryder mawr i mi gan i mi ofni y buasai etholwyr parchus a hen ffasiwn Sir Aberteifi yn clywed amdanynt.

Y cyntaf oedd Bragdy Carlisle. Yr hyn a ddaeth â'r sefydliad hwn i fodolaeth oedd y ffaith fod adeg y Rhyfel Byd Cyntaf nifer fawr o ffatrïoedd ffrwydradau yn ardal Carlisle a bod llawer o'r gweithwyr oedd yn ennill cyflogau uchel yn yfed ei hochr hi a dod ar shift yn feddw siwps ac o ganlyniad yn chwythu ei hunain a nifer o'u cydweithwyr ebargofiant. Fe weithredodd Lloyd George, a oedd yn Weinidog Munitions ar y pryd gyda'i egni a'i weledigaeth arferol ac fe greodd gynllun oedd yn dwyn yr holl dafarndai yma i berchenogaeth gyhoeddus. Gweinyddid y gorfforaeth gan y Swyddfa Gartref gydag un o'i Gweinidogion yn gweithredu fel rheolwr y bragdy. Yr oedd i'r Gweinidog hwn awdurdod eang yng nghyswllt cyflogaeth, trwyddedau, prisiau diodydd a.y.b. Arna' i y syrthiodd y coelbren rhyfedd hwnnw. Arswydais lawer gwaith o feddwl beth fuasai Cardis llwyrymwrthodol yn feddwl o'u Haelod Seneddol oedd yn rheolwr bragdy!

Yr ail beth oedd Deddf Hapchwarae 1968 - y Gaming Act. 'Dwi erioed wedi bod 'na chynt na chwedyn drwy ddrysau casino, efallai bod greddfau gofalus y Cardi yn hytrach nag unrhyw rinwedd arall yn sicrhau hynny ond y fi gafodd y dasg o dywys y mesur hwnnw

drwy Dŷ'r Cyffredin. Dyna lle'r oeddwn i wythnos ar ôl wythnos yn trafod gyda phob arlliw o awdurdod faterion ynglŷn â thechnoleg gamblo. Caed bob amser y "brief" mwyaf cynhwysfawr gan y Swyddfa Gartref ac 'ro'n innau wedi llyncu llyfrau lawer ar y pwnc cymhleth hwn. Pan gwblhawyd y mesur cefais fy llongyfarch yn wresog yn y Tŷ gan nifer o aelodau gan gynnwys aelodau'r wrthblaid am fy meistrolaeth drwyadl o'r maes! Dychmygwn benawdau y *Cambrian News* yn y cyswllt hwn ond yn ffodus ni fu na siw na miw am y Bragdy na'r Ddeddf Hapchwarae*. Mirabile dictu!*

Cafodd presenoldeb Gwynfor yn y Senedd, ac ethol Winnie Ewing rai misoedd ar ôl hynny, yr effaith anochel o ddwyn sylw arbennig i Gymru a'r Alban. Codwyd y tymheredd yn uwch fyth gyda pherfformiad llwyddiannus Plaid Cymru yn isetholiadau Gorllewin Rhondda ym 1967 a Chaerffili ym 1968. Teimlwn yn gryf iawn fod yn rhaid ymdrechu i'r eithaf i fanteisio ar y tymheredd hwn i geisio ennill tir i Gymru yn y maes cyfansoddiadol. Mewn un ystyr yr oedd y dasg o bregethu hyn yn y Blaid Lafur ryw faint yn anos nag a oedd cyn Caerfyrddin. Agwedd rhai o'm cyd aelodau seneddol yn y Blaid Lafur oedd na ddylid ar yr un cyfrif ganiatáu'r un consesiwn i genedlaetholdeb Cymreig. Ond agwedd eraill o'n plith oedd ei bod yn gwbl gyson â phob peth y safai'r Blaid Lafur drosto, i geisio beunydd i sicrhau mwy a mwy o awdurdod i Gymru dros ei bywyd ei hun. Wedi'r cyfan fe sylweddolodd nifer o'm cyfeillion mai proses o ddatganoli oedd unig ddyfodol rhesymol i'r Swyddfa Gymreig yr oedd Llafur wedi ei chreu ym 1964. Yr oeddwn wedi meddwl ers peth amser mai da o beth fuasai sefydlu Comisiwn Brenhinol i adrodd ar gwestiwn Senedd i Gymru. Wrth gwrs, sylweddolwn y gallai Comisiwn Brenhinol fod naill ai yn anadl einioes neu'n ergyd farwol i unrhyw bwnc, ond gwyddwn hefyd mai llesol ar y cyfan oedd hanes y mwyafrif llethol o Gomisiynau Brenhinol. Fe godais y mater mewn cwestiwn i'r Prif Weinidog yng Ngorffennaf 1967, a gofyn am sefydlu'r fath gorff ond ateb negyddol a gefais. Yr un oedd yr ateb i gwestiwn pellach yn gofyn am roddi ystyriaeth ddwys i sefydlu corff i gysidro dyfodol cyfansoddiadol Cymru a'r Alban rai misoedd wedi hynny.

Erbyn Mis Awst 1968 mi 'roeddwn wrth gwrs wedi bod ers rhai misoedd yn Weinidog yn y Swyddfa Gartref ac yr oedd John Morris a minnau a'n teuluoedd yn mwynhau gwyliau gyda'n gilydd yng Nghei Newydd, Cernyw. Cerddasom filltiroedd lawer o'r traethau euraidd yn trafod cwestiwn comisiwn brenhinol. Fel y digwyddodd,

fe gymerodd Rwsia feddiant gormesol o Tsiecoslofacia, fe alwyd y Senedd yn ôl ar frys ac fe gefais innau'r cyfle i drafod y mater yn bur gynhwysfawr gyda James Callaghan yn y Swyddfa Gartref. Mae'n ymddangos yn awr yn ôl dogfennau'r Cabinet am y cyfnod fod y syniad wedi ei wyntyllu yn un o is-bwyllgorau'r Cabinet yng nghanol mis Gorffennaf y flwyddyn honno, ond ni wyddwn i ddim am hynny, ac ni chyfeiriodd Jim Callaghan at hynny chwaith. Fe aethom drwy'r dadleuon i gyd gyda Jim yn symud o un gwrthwynebiad i'r llall ond eto heb fod yn angharedig ei agwedd. Yr oedd yn amlwg i mi hefyd fod ganddo gryn wybodaeth a diddordeb yn y pwyntiau a godid. Ar ôl trafodaeth hir fe ddywedais wrtho 'rydych yn ŵr o wladweinyddiaeth flaengar ("progressive statesmanship") ac 'rwy'n sicr na fyddech chi am gael eich cofio fel Willie Ross Prydain'. Pigodd hyn rywfaint ar Jim gan fod Willie Ross yn gwbl wrthwynebus i bob agwedd ar genedlaetholdeb gyda negyddiaeth Molotofaidd ac yn bell o fod yn un o gyfeillion Jim. Fe addawodd Jim ystyried y peth ymhellach. Cawsom sgwrs arall ar yr un mater pan ddeuthum yn ôl o'm gwyliau rhyw wythnos neu ddwy ar ôl hynny. Yn y drafodaeth honno gofynnodd Jim i mi "Wel, pe bai'r fath gorff yn cael ei sefydlu pwy fyddech chi'n ei argymell fel Cadeirydd iddo?". 'Roedd Jim yn barod wedi gwneud y pwynt y byddai'n anodd iawn i gael Cadeirydd i'r fath gomisiwn a fyddai'n cael ei ystyried yn ddiduedd. Y cynnig a roddais i ger bron oedd enw Lester Pearson a oedd wedi bod rhai blynyddoedd cyn hynny yn Brif Weinidog Canada. Yr oedd diddordeb Jim yn amlwg wedi ei ddeffro a deallais ar ôl hynny fod holiadau wedi eu gwneud i weld a fuasai Lester Pearson yn ymgymeryd â'r swydd. Fel y digwyddodd yr oedd ei iechyd wedi gwaethygu yn fawr ac ni fedrai ystyried y fath beth er ei fod e'n dra diolchgar am yr ymholiad. Y peth nesaf a ddigwyddodd oedd i James Callaghan ar lwyfan cynhadledd flynyddol y Blaid Lafur rai wythnosau wedyn yn gosod y cynllun ger bron. Wn i ddim hyd heddiw ai ceisio chwarae am amser yng nghyswllt cenedlaetholdeb Cymru oedd ei brif gymhelliad. Os felly, 'doedden ni ddim yn orbryderus gan y gwyddwn y buasai bodolaeth y comisiwn yn sicrhau fod y cwestiwn o gorff etholedig i Gymru ac o bosib Senedd i Gymru yn y pen draw yn mynd i bara yn uchel ar yr agenda gwleidyddol yng Nghymru ac ym Mhrydain am amser i ddod. Fedra' i ddim honni mai'r trafodaethau a gefais i gyda James Callaghan a gafodd yr effaith derfynol o'i newid o fod yn wrthddatganolwr i fod yn ddatganolwr ond 'rydw i'n o sicr na wnaeth y sesiynau a gawsom ronyn o ddrwg i'r sefyllfa yn ymwneud ag ymreolaeth i Gymru yn y tymor hir - sefyllfa a arweiniodd at Gomisiwn Brenhinol

Crowther/Kilbrandon ac yn ddiweddarach i Refferenda 1979 a 1997.

Cymro a wnaeth argraff ddofn arnaf oedd yr anghyffredin Emrys Hughes, Aelod Seneddol Llafur Ayrshire. Ar wahân i fod yn un o'r cymeriadau mwyaf cellweirus yn Nhŷ'r Cyffredin, yr oedd yn uniad o ddwy ffrwd ddiddorol dros ben. Ar yr un llaw, yr oedd yn fab-yng-nghyfraith i Keir Hardie ac ar y llaw arall yn or-ŵyr i'r Parchedig John Hughes, Pontrobert. Yr oedd yn un o ladmeryddion mwyaf eofn radicaliaeth y chwith ac yn werinieithwr sosialaidd.

Cofiaf am un achlysur pan lwyddodd i beri embaras enfawr i'r Sefydliad trwy ddragio allan o'r Llywodraeth gyfaddefiad mai'r un oedd yr Yacht Frenhinol Britannia â'r llong a restrwyd yn y Defence Estimates, dyweder ZHK/3 fel "fleet auxilliary" a ellid ei defnyddio fel llong ysbyty a oedd wedi derbyn gwariannau o filiynau o bunnoedd dros y blynyddoedd blaenorol.

Enghraifft arall o'i ddireidi bachgennaidd oedd mesur preifat a ddygodd ger bron y Tŷ i ddwyn papur y *Times* i berchenogaeth gyhoeddus. Ar gefn y mesur draft, yr oedd enwau'r aelodau a'i cefnogai - Mr Wilson, Mr Brown, Mr Callaghan - i gyd yn gefnogwyr ffurfiol ond nid Harold Wilson, na George Brown, na James Callaghan oeddynt ond aelodau seneddol Llafur eraill a ddaliai'r un cyfenw a'r brodyr yn y cabinet. Pwysleisiodd mor anghywir ei agweddau oedd y *Times* ar achlysur megis twf Natsiaidd yr Almaen, sefydlu'r Gwasanaeth Iechyd, cyrch Suez a.y.b. Ei brif honiad oedd bod cyfeiliornadau affwysol y Times yn peryglu'r deyrnas yn gyfan gwbl. Fel y gellid disgwyl, ni roddodd y llywodraeth amser i'r mesur gael symud yn ei flaen.

Unwaith yn unig y gwelais neb yn cael y trechaf arno - a hynny oedd yr achlysur pan roddodd Cledwyn Hughes y neges iddo fod Pwyllgor Llywio'r Arwisgiad wedi dewis emyn ei hen Daid i'r gwasanaeth seremonïol.

"O anfon Di yr Ysbryd Glan
Yn enw Iesu Mawr".

"I'll interdict ye blaggards", meddai wrth ei hen gyfaill – ond ni wnaeth.

Mae llawer yn sôn am elyniaethau a chenfigennau ym mywyd y Senedd rhwng pobl o wahanol bleidiau ac yn aml rhwng aelodau o'r un blaid. 'Rwy'n cofio John Silkin yn dweud wrthyf am yr hyn ddywedodd ei dad wrtho ychydig cyn ei farw. Yr oedd Lewis Silkin wedi bod yn wleidydd llwyddiannus ac yn aelod o'r Cabinet. "John", meddai "50 years of public life have taught me that your best friend in the House would knife you for the Deputy Chairmanship of an obscure committee."

Yn y blynyddoedd byrion y bûm i'n gwleidydda fe welais lawer iawn o gyfeillgarwch.

Bu Elwyn Jones yn hynod dda i mi o'r cychwyn cyntaf. Yr oedd yn Dwrnai Cyffredinol ar y pryd ac yn ffigwr mawr ac urddasol ym mywyd y Tŷ. Pan godai i annerch ar lawer adeg stormus buan y distawai'r dymestl o dan ei lais soniarus a'i resymeg ddi-fwlch. Yr oedd yn fab i weithiwr dur diwylliedig o Lanelli, aml y dychwelai i'w dref enedigol. Yr oedd un stori a hoffai yn arbennig yn y cyswllt hwn. Rhai wythnosau ar ôl ei benodi i uchel swydd yr Arglwydd Ganghellor, yr oedd yn sgwrsio gyda hen gyfaill ar y stryd. "Dewch yma", meddai hwnnw wrth berson yr ochr arall i'r ffordd "i chi gael cwrdd â brawd bach Idris Jones". Dr Idris Jones, a fu'n Brif Wyddonydd yr NCB, oedd Capten Tim Rygbi Cymru yn y tridegau diweddar ac yr oedd y crys rygbi yn bwysicach o lawer na'r Sach Wlân.

Un a fuodd yn dad i mi yn y ffydd oedd Cledwyn Hughes. Edmygem ef flynyddoedd cyn ei gyfarfod. Cofiaf amdano mewn ysgrif yn *Y Cymro*, ar Senedd i Gymru, yn y pumdegau cynnar, yn dweud "pe bai chwe chant o angylion yn San Steffan, angylion Seisnig fyddent ac ni ddeallent deithi meddwl Cymru." Lawer i Nos Iau cyn dychwelyd i Gymru cawsem seiat gyda'n gilydd. Cledwyn yn dweud wrthyf "Llythyr Paul at y Colosiaid, pedwaredd bennod, yr ail adnod" a dyna le caem grynodeb fyw o'i bregeth y Sul canlynol. Teimlem fod llunio a thraddodi pregeth yn rhywbeth pwysicach iddo yn aml na dal swyddi fel Ysgrifennydd Cymru neu Weinidog Amaeth.

Bu John Morris a minnau yn gyfeillion ers yr oeddem yn blant yn Ysgol Ardwyn a buom yn cadw perthynas agos byth ers hynny. Dyma'r gwleidydd disgleiriaf a fagodd Sir Aberteifi o bell ffordd. Bu'n Weinidog mewn pum llywodraeth a gwasanaethodd yn ei dro

fel Ysgrifennydd Cymru ac fel Twrnai Cyffredinol. Bu hefyd yn Arglwydd Raglaw Dyfed.

Gofynnwyd i mi droeon gwestiwn a ofynnir i bob un a fu yn y Senedd, sef "Pwy oedd yr areithiwr gorau a glywsoch yno?" O'm rhan fy hun, buaswn yn rhannu'r llawryf rhwng dau, sef Enoch Powell a Michael Foot. Yr oedd dulliau rhethregol y ddau mor wahanol i'w gilydd ac oedd eu cyfryw safbwyntiau gwleidyddol.

Y fwyall ryfel neu'r cledd trwm oedd arf Enoch Powell. Pincied ysgafn gyda'r epée oedd *metier* Michael Foot gyda'r gwrthrych gan amlaf yn corcio o chwerthin o dan ei ymosodiad.

Cofiaf am Enoch Powell yn annerch yn y ddadl fawr ar y Farchnad Gyffredin ac yn gorffen ei araith trwy ddweud, "Mr Speaker, if this House espouses this policy tonight, then I verily believe that these ancient stones will cry out in their anguish."

Clywsech sbecyn o ddwst yn cwympo ac yr oedd llawer o dan emosiwn. Pe bai rhywun arall wedi defnyddio'r term affidafidaidd *"I verily believe"* buasai'r lle wedi byrstio mewn chwerthin. 'Rwy'n cofio Enoch Powell yn cael ei holi yn Gymraeg gan Gwyn Erfyl ar ryw raglen deledu ar nos Sul. Dysgodd Powell yr iaith yn drwyadl fel ag i gyd-gyhoeddi gyda Stephen J. Williams Lyfr Blegywryd ym 1942. Un o'r cwestiynau a ofynnodd Gwyn Erfyl iddo oedd "Pe tai chi'n cael y cynnig i fod yn Brif Weinidog, a fuasech yn ei dderbyn?" Ateb urddasol Enoch Powell oedd "pe cynigid y cwpan hwn i mi, ni chredaf y buaswn yn ei wrthod." Wrth i mi ei longyfarch y Llun canlynol dywedodd wrthyf "but the word I was searching for was not cup but chalice".

Yng nghyswllt Michael Foot, cofiaf ef mewn ymryson gyda Syr Geoffrey Howe - y dyn disglair hwnnw oedd yn Solicitor General ar y pryd - Meddai Michael, "So miraculously *adroit* is the honourable and learned gentleman as to make Houdini appear like a helpless athritic." Gyda llaw, cefnder enwog i Geoffrey Howe oedd Gwynfor, a'r ddau yn ymhyfrydu yn y berthynas.

Er bod Enoch Powell a Michael Foot yn draddodiadol mewn carfanau gwahanol buont ar un achlysur yn gynghrheiriad annhebygol. Yr achlysur hwnnw oedd yr ymdrech ym 1969 i ddiwygio Tŷ'r Arglwyddi a hynny trwy atal hawl yr aelodau etifeddol i bleidleisio yn y Tŷ er yn para i feddu'r hawl i siarad.

Edrychai Powell ar y Tŷ fel sefydliad bron o ddwyfol ordinhad. Gwelai hefyd pe pigwyd swigen hawliau etifeddol yn Westminster, y buasai swigen debyg arall o dan fygythiad ym Mhalas Buckingham. O ran Michael Foot credai bod Tŷ'r Arglwyddi anniwygiedig yn jôc, ond y gallasai siambr fwy democrataidd fod yn fygythiad i'r Senedd etholedig. Am wythnosau lawer aeth y mater ymlaen hyd oriau mân y bore, ond heb wneud unrhyw gynnydd sylweddol. Ar ôl hir a hwyr aeth James Callaghan i ffwrdd i'r Caribi i lywyddu cynhadledd o'r Parliamentary Union. Gadawodd hyn Merlyn Rees a minnau fel Gweinidogion o'r Swyddfa Gartref i gario pwys a gwres y dydd. Yr oedd yn brofiad cyfoethog ond nid heb ei bryderon.

Pan dynnodd y Llywodraeth y mesur yn ôl yn y diwedd, fe dalodd Michael Foot deyrnged radlon i'r ddau ohonom gan ddweud "never since *the boy stood on the burning deck* has such responsibility been carried on such young shoulders."

Yn niwedd Chwefror 1974 collais sedd Ceredigion i'r Rhyddfrydwyr. Er i'r bleidlais Lafur godi gydag agos i fil o bleidleisiau, gostyngwyd pleidlais y Ceidwadwyr gyda rhyw fil a phleidlais Plaid Cymru gyda rhyw ddwy fil o bleidleisiau. Geraint Howells a'u hetifeddodd bron yn gyfan gwbl. Yn ychwaneg at gynnydd yn nerth y Rhyddfrydwyr drwy'r deyrnas, mi 'roedd personoliaeth gynnes a serchog Geraint yn allweddol. Yr oedd yn ddarn dilys o frethyn Cymru wledig a'i anian yn ffitio'r sir fel hen faneg. Buom yn wrthwynebwyr ond byth yn elynion.

Nid oedd y canlyniad yn syndod i mi cans y gwyddwn nad oedd dinas barhaol i Lafur yng Ngheredigion.

Am ddeuddeg mlynedd ar ôl hynny cyn mynd i'r Fainc bûm yn gweithio yn ddigon diwyd fel bargyfreithiwr. Er i mi gael cynnig dod yn aelod o siambrau Elwyn Jones yn Llundain, cydiais yn y cyfle i ddod yn aelod o siambrau digon prysur yng Nghaerdydd, ac yno y symudais yng ngwanwyn 1974. Y gyfraith yn hytrach na gwleidyddiaeth a gafodd y gorau o'm sylw a'm hegni dros y blynyddoedd nesaf.

Yn gynnar ym 1978 dechreuwyd ymgyrchu dros bleidlais "Ie" yn y refferendwm ar ddatganoli a oedd i'w gynnal ar Ddydd Gŵyl Ddewi'r flwyddyn ganlynol.

Fe ddaeth nifer o bobl o ewyllys da ac o amrywiol wleidyddiaeth ynghyd i ffurfio ffrynt amlbleidiol. Fe'm penodwyd i'n Llywydd ar y corff hwnnw. Edrychwn ar y bleidlais a oedd i ddod fel allwedd hollbwysig i ryw ffurf ar Senedd i Gymru, ond o'r cychwyn cyntaf yr oedd fel pe tai holl nerthoedd y Fall yn cyngrheirio i'n herbyn. Er i un pôl piniwn yn Hydref 1978 awgrymu fod y ddwy garfan yn weddol gyfartal â'i gilydd o ran nerth, ar i lawr y carlamodd pethau dros y misoedd nesaf gyda phob propaganda gwrth-Gymreig yn cael ei hau yn helaeth.

Er mai claear oedd y gefnogaeth yn y cyfarfodydd cyhoeddus ar y cyfan, cawsom un cyfarfod bythgofiadwy yma yn Aberystwyth yn Neuadd Fawr y Coleg. Yr oedd y lle'n orlawn. Siaradai Gwynfor a minnau dros y mater a Neil Kinnock a David Gibson Watt yn ei erbyn. Cofiaf orffen fy araith gan droi at Kinnock a dweud "don't ever think that you can trample the life of a nation in the mud of your own miserable self-interest." Heddiw y mae'r geiriau yma yn ymddangos yn giaidd ond fy nghred ddiffuant ar y pryd oedd bod Kinnock a'i lygad ysglyfaethus ar arweinyddiaeth y Blaid Lafur ac yn gwasgu pob diferyn o fantais trwy fod yn brif ladmerydd gwrth - ddatganoli.

Daeth Gŵyl Ddewi a'i gwawr greulon. Fel y cofiwch, gwrthododd Cymru'r cynnig gyda mwyafrif o bedwar i un. Ym mhob rhanbarth o Gymru gan gynnwys Gwynedd a Dyfed yr oedd mwyafrifoedd mawrion yn erbyn. O ran etholaethau seneddol Cymru, dim ond Sir Aberteifi - i'w bythol glod - a bleidleisiodd o blaid a hynny gyda mwyafrif bychan. Trannoeth y Farn, teimlwn y siom gyhoeddus fwyaf a gefais erioed. Cofiwn am eiriau Gruffudd ab yr Ynad Coch:

"Och hyd atat, Dduw na ddaw
môr dros dir, paham y'm gedir i ohiriaw?"

Teimlwn fod y cyfle olaf am fywyd newydd i Gymru wedi ei luchio ymaith a hynny gyda dirmyg. Lawer gwaith yn ystod yr ymgyrch dyfynnais i mi fy hun eiriau'r bardd James Lowell:

"Once to every man and nation comes the moment to decide,
In the strife of truth with falsehood, for the good or evil side;
.....
And the choice goes by for ever ....."

Yr hyn na ragwelais oedd yr effaith affwysol a gawsai deunaw mlynedd o geidwadaeth ar enaid Cymru. Yn eironig, fe lwyddodd Thatcheriaeth i gyflawni'r hyn a fethodd gwladgarwch Cymreig ei ennill.

Sefais yn aflwyddiannus ym Môn yn etholiad cyffredinol 1979. Er awydd brwd Cledwyn i mi ei ddilyn fel aelod yr Ynys, anifail un meistr oedd Môn yng nghyswllt Llafur a Chledwyn oedd y meistr ysbrydoledig hwnnw. Dau beth a hoffwn eu dweud am yr ymgyrch honno: yn gyntaf, fe'm curwyd gan Keith Best, bargyfreithiwr ifanc o Frighton. Er i'r ornest fod yn un galed, ni ddywedodd Best un gair dilornus amdanaf i na'r un ymgeisydd arall. Beth bynnag a oedd y cymylau a ddaeth o'i gylch yn ddiweddarach, gyda rhyw giamocs ynglŷn â phrynu cyfranddaliadau, mi welais i ef yn ŵr bonheddig ac anrhydeddus gant y cant.

Y peth arall yw'r atgof o'r hyn a ddigwyddodd ar brynhawn Sadwrn ar Stryd Fawr Llangefni. Yno y safai Cledwyn a minnau ac yntau yn cyfeirio pawb a allai i'm cyfarfod, ac ar yr un pryd yn fy nghanmol i'r cymylau. Clywais un wraig yn sibrwd wrtho "Mae e'n ddyn clên, ond 'dwi ddim yn 'i ddallt o'n siarad". Ar ôl i'r wraig dda fynd yn ei blaen, dywedais wrth Cledwyn, "Cofiwch eiriau Pantycelyn":

"Dyn dieithr ydwyf yma
Draw mae 'ngenedigol wlad".

Ymateb Cledwyn oedd "peidiwch â <u>deud</u> pethau fel yna Elystan, fe fydd pobl yn eich clywad chi."

Deuthum yn aelod o Dŷ'r Arglwyddi ym 1981, a hynny ar gais Elwyn Jones a oedd eisiau dirprwy iddo ar y Fainc Flaen yng nghyswllt materion cyfreithiol a chyfansoddiadol. Cytunais i lanw'r swydd am rai blynyddoedd yn unig gan fod pwysau'r gwaith ar y Bar yn drwm ac yn trymhau.

Bûm yn aelod o Fainc Flaen yr Wrthblaid felly am ryw bum mlynedd hyd 1986 pan ddeuthum yn Farnwr. Perodd y cynnig hwn syndod i mi gan fy mod wedi cymeryd yn ganiataol na allasai un a oedd yn aelod o'r Senedd (neu o leiaf o Ail *Dŷ'r* Senedd) fyth fod yn farnwr; ond dywedwyd wrthyf nad oedd hyn yn dramgwydd.

Am y 19 mlynedd nesaf felly fe alltudiwyd gwleidyddiaeth yn gyfan gwbl o'm bywyd hyd nes i mi ymddeol o'r Fainc yn 2005.

Pan ddychwelais i Dŷ'r Arglwyddi yn 2005 yr oedd yn lle gwahanol iawn i'r hwn a adewais bedair blynedd ar bymtheg cyn hynny. Teimlwn fel yr hen wron chwedlonol hwnnw Rip Van Winkle a aeth undydd i'r coed i hela. Syrthiodd i gysgu a dod yn ôl i'w bentref ymhen degrifoedd dim ond i weld fod y byd wedi newid yn gyfan gwbl. Felly i raddau helaeth yr oedd yn fy hanes i. Yr oedd llawer i gyfaill annwyl wedi ymadael â'r fuchedd hon. At hyn yr oedd y cyfan o'r Arglwyddi etifeddol wedi eu halltudio ac eithrio 92 o'r rhai a etholwyd yn weddill. Treiddiai'r camerâu teledu i bob twll a chornel a'i gwneud yn anodd i ddyn gosi ei drwyn heb ddadlennu hynny i'r cyhoedd!

Fel cyn Farnwr 'rwy'n eistedd ar y Croes Feinciau ond yn ystyried fy hunan yn gefnogol i Lafur yn gyffredinol. Mae'r materion yr wyf yn ymwneud â hwynt ym myd cyfraith a chyfansoddiad ac yn fwy aml na dim yn canolbwyntio ar y meysydd hynny y gweithredwn ynddynt fel barnwr sef cyfraith plant a phobl ifainc a'r gyfraith droseddol. Ond o bryd i'w gilydd byddaf yn ymwneud â materion Cymru neu bynciau gwledig.

Un mater y bu i mi roddi cryn sylw iddo oedd Mesur Llywodraeth Cymru 2006. Mae'n destun syndod i mi na chafodd y ddeddfwriaeth hon fwy o gyhoeddusrwydd, yn arbennig yng Nghymru. Mae adran 3 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn bosib i hawliau deddfwriaethol gael eu trosglwyddo ystod wrth ystod i'r Cynulliad. Mae Adran 4 yn creu sefydliad o Senedd i Gymru nad yw'n annhebyg i Senedd Gogledd yr Iwerddon neu Senedd yr Alban. Y cyfan sy'n rhaid digwydd i ddwyn Adran 4 i rym yw:

(a) i ddwy ran o dair o aelodau'r Cynulliad ofyn am Refferendwm, a

(b) i bobl Cymru mewn pleidlais gefnogi hynny pe tai ddim ond gyda mwyafrif o un.

Pe tai mesur fel hwn wedi cael ei ennill yn nyddiau Lloyd George a Thomas Edward Ellis fuasai'r coelcerthi'n fflamio o fryn i fryn ac o bentir i bentir.

Mae'r posibiliadau yn wirioneddol aruthrol ond yr eironi yw bod y peryglon yn anferthol iawn hefyd.

Ar y 6ed o Orffennaf 2006, gyda'r mesur yn ei gyfnod pwyllgor gerbon Tŷ'r Arglwyddi, cynigiwyd gwelliant gan y Ceidwadwyr i sicrhau yn lle bod angen dwy ran o dair o aelodau'r Cynulliad i geisio refferendwm y byddai 51 y cant yn ddigon. Fe'm syfrdanwyd o weld hyn. Cofiwn fod y Ceidwadwyr (gyda rhai eithriadau anrhydeddus) yn filain wrthwynebus i Senedd a rhai yn erbyn datganoli hyd yn oed. Paham y brwdfrydedd newydd o blaid refferendwm? Cofiwn am yr hanes hwnnw am Metternicht, y diplomydd o Awstria pan gafodd ei ddeffro am dri o'r gloch y bore i glywed y newydd fod llysgennad Ffrainc wedi marw: a'i ymateb oedd "Vot voss his motif?" Gorweddai'r ateb gyda dau welliant arall a oedd gerbron y Tŷ ar yr un dydd. Yr oedd y cyntaf i'r perwyl pe collid refferendwm yna na ellid ail-godi'r mater am bedair blynedd o leiaf. Byrdwn yr ail welliant oedd os na gariwyd y mater mewn refferendwm o fewn deg mlynedd - p'un a fu ymgyrch aflwyddiannus ai peidio - yna bod Adran 4 a chynllun y Senedd yn cael ei ddiddymu yn gyfan gwbl.

Pan y clywaf i felly bobl yn sôn am y rheidrwydd o gael refferendwm erbyn y dydd a'r dydd; rwy'n atgoffa fy hunan mai bwriad doethach yw nid anelu am y dydd cyntaf posib i gynnal refferendwm ond am y dydd cyntaf y byddwn yn ddiogel o lwyddo yn y prawf tyngedfennol hwn.

'Dwi ddim am fyw i weld loes a chywilydd 1979 yn cael eu hail-adrodd.

Mae amser wedi'n goddiweddyd yn ddifrifol, felly rhaid rhoddi terfyn ar y crwydriad digon digyswllt hwn ar hyd llwybrau'r cof.

Diolch i chwi am eich croeso, eich gwrandawiad a'ch mawr amynedd.